
## ACT 19: Ynys Dewi





Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro

LUC

**ACT 19 Lleoliad ac Arwynebedd Coetir Presennol**

- ACT 19: Ynys Dewi
- ACT Cyfagos



*Diffiniad y RhGG o goetir ydy ardal ag arwynebedd o leiaf 0.5 hectar


Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deilliannol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.

CB: EB:philipb LUC Location 31/01/2023
Source: OS, FC, NRW

Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro


## ACT 19 Dynodiadau Cadwraeth Natur




Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron * © Getmapping plc.
Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata.
Yn cynnwys data deilliannol Arolwg Ordnans. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100019741.

CB: EB:philipb LUC Nature Designations 01/02/2023
Source: OS, NRW


- ACT 19: Ynys Dewi
- ACT Cyfagos
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig




Safle'r Coed a'r Coetir a Chanllaw ar Ddyluniad
Awdurdod Parc Cenedlaethol Afordir Penfro

**ACT 19 Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol**

- ACT 19: Ynys Dewi
- ACT Cyfagos
- Tirwedd Hanesyddol Eithriadol
- Heneb Gofrestredig



Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2022
Yn cynnwys data Cadw ©

CB: EB:philipb LUC Heritage 31/01/2023
Source: OS, Cadw

### Arwynebedd coetir presennol o fewn yr ACT



Golygfeydd tua'r gorllewin tuag at Ynys Dewi o'r tir mawr ym Mhorthstinan.

Ynys yn y môr ydy'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon ac fe'i nodweddir gan glogwyni arfordirol uchel a brigiadau creigiog. Gorchuddir y tir yn bennaf gan laswelltir lled-naturiol a rhostir gyda phrysgwydd. Nid oes unrhyw goetiroedd ar yr ynys. Mae rhywfaint o lwyni meryw wedi'u lleoli ar y clogwyni sy'n wynebu'r de ar yr ynys.

| Dynodiadau a chofnodion treftadaeth naturiol a diwylliannol | | |
|---|---|---|
| *Mae'r Canllaw hwn yn canolbwyntio ar sensitifrwydd a chyfleoedd ar gyfer creu coetiroedd mewn perthynas â chymeriad tirwedd. Dim ond rôl gynghorol all fod iddo wrth bwyso a mesur manteision posib creu coetiroedd o'u cymharu ag effeithiau posib ar gynefinoedd nad ydynt yn goetiroedd ac asedau treftadaeth ddiwylliannol, y dylid eu hystyried yn fwy manwl ar lefel safle. Gweler y prif adroddiad am ragor o fanylion.* | | |
| Treftadaeth naturiol | ACA, AGA, SoDdGA<br>GNG, GNL (yn cynnwys gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Natur /RSPB)<br>RIGS<br>Coetir hynafol | Mae tair ACA, sy'n cwmpasu 349.8 (100%) o'r ACT rhyngddynt.<br>Mae un SoDdGA yn yr ACT sy'n cwmpasu 283.8 ha (92.2%) o'r ACT.<br>Mae GNG Ynys Dewi yn cwmpasu 273.2ha (88.7%) o'r ACT.<br>Mae Gwarchodfa RSPB Ynys Dewi yn cwmpasu 257.5ha (83.6%) o'r ACT. |
| Treftadaeth ddiwylliannol | Cofrestr Tirweddau Hanesyddol y Parc Cenedlaethol<br>Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a data CAH | Mae Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru sy'n cwmpasu 307.9ha (100%) o'r ACT.<br>Mae un adeilad rhestredig yn yr ACT.<br>Mae'r ACT yn cynnwys 55 o gofnodion CAH, sy'n cynnwys rhychwant o nodweddion archaeolegol a hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig a rhai heb eu dynodi, adeiladau hanesyddol sydd wedi'u rhestru a rhai sydd heb eu rhestru, a lleoliadau darganfyddiadau. Mae'r nodweddion hyn yn dyddio o gyfnod cynhanes i gyfnodau diweddar. |

| Sensitifrwydd y dirwedd i blannu coetir newydd | |
|---|---|
| **Elfennau sensitif allweddol** | ■ Tirffurfiau amrywiol yr ynys forol, gyda brigiadau creigiog amlwg yn codi ar yr ymyl orllewinol, gan gynnwys Carnysgubor a Charnllundain.<br>■ Bod y gorchudd tir bron yn gyfan gwbl naturiolaidd ac yn cynnwys cynefinoedd a werthfawrogir yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, gan gynnwys rhostir a chlogwyni arfor, ynghyd â phresenoldeb nythfeydd adar môr. Mae gan yr ynys nifer o ddynodiadau, gan gynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Gwarchodfa'r RSPB.<br>■ Mae rhan ogledd-ddwyreiniol yr ynys wedi'i rhannu'n gaeau. Er bod y tir wedi'i amaethu ers canrifoedd, mae patrymau'r caeau yn gymharol fodern ac yn deillio o'r ganrif ddiwethaf.<br>■ Presenoldeb olion archaeolegol a hanesyddol o bwysigrwydd rhyngwladol, gan gynnwys y capel canoloesol a'r crugiau crynion cynhanesyddol.<br>■ Bod yr ynys wedi'i chynnwys yn rhan o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Gofrestredig yng Nghymru Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi.<br>■ Amlygrwydd yr ynys, sydd â graddfeydd uchel o ryngwelededd gyda'r tir mawr dros Swnt Dewi ac sydd hefyd yn dirffurf nodedig mewn golygfeydd o'r môr.<br>■ Y cymeriad agored, digysgod ac absenoldeb unrhyw anheddiad dynol, sy'n creu ymdeimlad cryf o le. |
| **Trosolwg** | Mae Ynys Dewi yn dirffurf nodedig mewn golygfeydd tua'r môr ac oddi yno, gyda'r brigiadau creigiog yn creu proffil nodedig. Mae'r ynys yn cael ei gwerthfawrogi oherwydd y gorchudd tir naturiolaidd sy'n cynnwys lleiniau helaeth o gynefinoedd o arwyddocâd rhyngwladol megis rhostir a chlogwyni arfor ac oherwydd presenoldeb nodweddion archaeolegol o bwysigrwydd rhyngwladol.<br>Mae'r cyfan o'r ACT hon yn hynod sensitif i greu coetiroedd ar unrhyw raddfa gan y byddai plannu yn newid cymeriad yr ynys yn sylweddol ac yn gallu cael effaith niweidiol ar rinweddau arbennig yr ynys.<br>Mae sensitifrwydd y dirwedd i goetiroedd cymysg o bob graddfa yn uchel ar gyfer yr ACT hon. |

| Sgoriau Sensitifrwydd Tirwedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach (≤5ha)** | | | | | Uchel |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fach-ganolig (>5-15ha)** | | | | | Uchel |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa ganolig (>15-30ha)** | | | | | Uchel |
| **Coetiroedd llydanddail ar raddfa fawr (>30ha)** | | | | | Uchel |



Golygfeydd tua'r gorllewin tuag at Ynys Dewi o'r tir mawr ym Mhorthstinan.



Golygfeydd tua'r gorllewin tuag at Ynys Dewi o'r tir mawr ym Mhorthstinan, yn dangos diffyg gorchudd coed.

| Cyfleoedd ar gyfer gosod coed a choetiroedd yn y dyfodol o fewn yr ACT |
| --- |
| - Mae Ynys Dewi yn hynod sensitif i blannu coetiroedd ar unrhyw raddfa, felly nid oes unrhyw gyfleoedd wedi'u cynnwys. |

| Canllawiau strategol ar gyfer plannu coetiroedd / coed o'r newydd |
| --- |
| - Asesir bod gan yr ACT sensitifrwydd tirwedd ar lefel uchel i greu unrhyw goetiroedd ac felly nid oes unrhyw ganllawiau wedi'u cynnwys. |